

❖ CERDDI'R ADFENT

Gwyrth y geni; Duw'n gwisgo cnawd:

Ni wyddom am ddim rhyfeddach, – Crëwr
 Yn crio mewn cadach,
 Yn Faban heb ei wannach,
 Duw yn y byd fel Dyn Bach.

J. Eirian Davies

Trefn yr iachawdwriaeth yw fod Duw yn mynnu gwisgo cnawd a cherdded ein daear:

Duw mewn cnawd yn dlawd ei lun, – rhin y Gair
 Yn y gwellt yn blentyn,
 Trefn ffraeth iachawdwriaeth dyn
 Yn y Mab mwy na mebyn.

Derwyn Jones

Rhoi'r cyfan mae Duw a'i roi mewn creadur o ddyn:

Nid yw yn Ei arbed Ei hun, – o'i ras
 Ymroi'n ddiwarafun
 Mae Duw i broblemau dyn
 A rhoi'i ateb mewn crwtyn.

Alan Wyn Roberts

Gwylw'n rhag ofn i ni gadw Iesu, y Duw ymgawdoledig, yng nghrud y gorffennol:

Myth oedd hanes Gabriel yn llefaru wrth y Forwyn
 Mai beichiog ydoedd heb hedyn yr Ysbryd Glân:
 A ffansïo mai gwraig brydferth ydoedd, nid gwraig gyffredin,
 Gwraig blaen ac ar ei gruddiau wrid y sosialaidd dân.

Gwenallt

Tymor y paratoad ydi tymor Adfent – paratoi ar gyfer dyfodiad Mab Duw i'r byd:

Pnawn Sadwrn glawog
 a'r ceiniogau
 yn disgyn yn isel a gwag
 i'r blwch casglu
 yn y wal.

Yna'n sydyn sŵn y drws pren yn crafu'n agored
 a dwy o wragedd oedrannus y llan
 yn dod i weini'r Adfent
 bnawn Sadwrn.
 Dod i drawsnewid blaen Eglwys
 yn barod at y Sul.
 'Mae 'na rywun yma,'
 meddent yn ddrwgdybus
 cyn 'nabod stamp fy nhylwyth.

Mae rhai yn dal i baratoi
 at ei ddyfod Ef.

Aled Lewis Evans

❖ GŴYL Y DISGWYL

Gŵyl y disgwyl yw'r Adfent.

Mae Iesu **wedi dod** ac edrychwn ymlaen i ddathlu'r geni rhyfeddol.
Mor bwysig yw rhyfeddu, a dal i ryfeddu. Yng ngeiriau y Pêr Ganiedydd:
Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.
Dyma 'Frenhines y gwyrthiau', chwedl Lewis Valentine.

Mae Iesu **yn dod**. Fel y daeth at y disgyblion yng nghyfnod yr Atgyfodiad, ac yn ei Ysbryd ar y Pentecost ac yna, â nerth a goleuni, i fywydau ei ganlynwyr ymhob oes, gobeithiwn y daw eleni i'n bywydau ni i'n codi oll
O fedd ein camweddau a'n bai
a'n cyscadrwydd.

Mae Iesu **i ddod**. Dyna paham y gweddiwn yn gyson: 'Deled dy Deyrnas'.
Fel y dywedodd T. Elfyn Jones:
O doed dy deyrnas drwy ein gwaith
a'n gweddi beunydd ar y daith;
a rho in ras i seinio clod
yr hwn a wna i'r deyrnas ddod.
Yn wir, tyred Arglwydd Iesu.

Mae Duw ar waith yn ei fyd a'i fydysawd ac yn ei eglwys a thrwyddi yn fyd-eang ac yn lleol. Carwn yn garedig a diffuant, felly, eich annog i gofio a dathlu Gŵyl yr Adfent eleni.

Emynau arbennig o addas yw, 'O tyred di, Emanwêl', 'Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni' a 'Tyred, Iesu, i'r anialwch'.

Darlleniadau addas yw: Eseia 11:1–9; Luc 1:68–79 – Y Benedictws; Luc 2:22–38 – Nunc Dimittis a Datguddiad 22:20–21.

Gweddi'r Adfent, sydd wedi dod inni dros ysgwydd y canrifoedd, yw: 'Hollalluog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau'r goleuni, yn awr yn y bywyd marwol hwn, a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngedd rwydd mawr; fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei ogoneddus fawredd i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol; trwyddo ef sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd, Amen.'

Oswald Davies